Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Protocol Achosion Cymhleth o Gam-drin Plant

## (Gan gynnwys cam-drin nad yw'n ddiweddar/hanesyddol yn erbyn plant sy’n ddioddefwyr)



| Cymeradwywyd gan y Bwrdd<br>Ionawr 2026 | Is-grŵp Protocolau a Gweithdrefnau | Dyddiad Adolygu<br>Ionawr 2029 |
|---|---|---|

# Cynnwys

| | | TUDALEN |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Diffiniad | 3 |
| 3 | Egwyddorion cyffredinol | 4 |
| 4 | Atgyfeiriadau | 5 |
| 5 | Cyfarfod Strategaeth Cychwynnol | 6 |
| 6 | Grŵp Rheoli Strategol | 6 |
| 7 | Grŵp Ymchwilio ar y Cyd | 9 |
| 8 | Rhannu Gwybodaeth | 11 |
| 9 | Croesi ffiniau daearyddol a gweithredol | 11 |
| 10 | Diwedd yr Ymchwiliad | 12 |

**Atodiad 1**
Siart Lif y Broses ar gyfer Ymchwiliadau Achosion Cymhleth 14

**Atodiad 2**
Templed Adroddiad Cynnydd 15

**Atodiad 3**
Templed adnabod plant sy'n peri pryder yn yr ymchwiliad 16

## 1. Cyflwyniad

Mae'r **Protocol Achosion Cymhleth o Gam-drin** hwn yn weithdrefn ddiogelu amlasiantaeth a luniwyd fel cymorth wrth ymateb i achosion lle mae **cam-drin wedi'i drefnu, cam-drin systematig neu sawl math o gam-drin** sy'n ymwneud â mwy nag un plentyn/person ifanc a/neu droseddwr. Mae'n sicrhau dull cyson a chydgysylltiedig i

amddiffyn plant a phobl ifanc, rheoli risgiau, ac archwilio'r angen am unrhyw ymchwiliadau, gan gynnwys ymchwiliadau troseddol.

Dylid darllen y ddogfen hon yn unol â pholisïau'r asiantaethau unigol a Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

## 2. Diffiniad – Beth yw Achosion Cymhleth o Gam-drin?

Mae hwn yn brotocol amlasiantaeth lle mae pob asiantaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 Gofal Cymdeithasol Cymru (diogelu.cymru), a chanllawiau atodol Diogelu Plant: Diogelu-plant-rhag-CRhB-briff-7-munud.pdf

Gellir diffinio achos cymhleth o gam-drin (wedi'i drefnu neu luosog) fel cam-drin sy'n cynnwys un neu fwy o gamdrinwyr a nifer o blant sy'n cael eu cam-drin sy'n gysylltiedig â'i gilydd neu beidio. Gall y camdrinwyr dan sylw fod yn gweithredu ar y cyd i gam-drin plant, weithiau yn gweithredu ar wahân neu efallai eu bod yn defnyddio fframwaith sefydliadol neu swydd mewn awdurdod i recriwtio plant i'w cam-drin. Gall cam-drin o'r fath ddigwydd fel rhan o rwydwaith o gam-drin ar draws teulu neu gymuned ac o fewn sefydliadau fel lleoliadau preswyl, ysgolion preswyl, gofal dydd ac mewn darpariaethau eraill fel gwasanaethau ieuenctid, clybiau chwaraeon, grwpiau ffydd a grwpiau gwirfoddol.

Gall plant hefyd gael eu cam-drin drwy ddefnyddio dyfeisiau electronig, fel ffonau symudol, cyfrifiaduron, consolau gemau ac ati, sy'n cyrchu'r rhyngrwyd, ac yn arbennig, gwefannau rhwydweithio cymdeithasol. Diogelu plant rhag cam-drin ar-lein

Er yn y rhan fwyaf o achosion o gam-drin cymhleth ac wedi'i drefnu mae'r camdriniwr neu'r camdrinwyr yn oedolion, mae hefyd yn bosibl i blant/pobl ifanc fod yn gyflawnwyr niwed o'r fath, gyda neu heb gamdrinwyr sy'n oedolion. Dylai asiantaethau hefyd fod yn effro i'r posibilrwydd y gallai plentyn neu berson ifanc sydd wedi niweidio rhywun arall fod yn ddioddefwr hefyd.

Bydd ymchwiliadau i achosion cymhleth o gam-drin yn cwmpasu nid yn unig adrodd am gam-drin presennol ar blant, ond hefyd adrodd am achosion o gam-drin mewn plentyndod gan oedolion, y cyfeirir atynt yn gyffredin fel cam-drin hanesyddol/nad yw'n ddiweddar.

Yn dilyn Adolygiad Cenedlaethol y Farwnes Casey o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE), amlygwyd bod diffiniad penodol hefyd yn angenrheidiol ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant. Cytunwyd ar hyn fel *"Nodweddion rhwydwaith trefnedig yw dau neu ragor o unigolion (p'un a ydynt yn hysbys neu beidio) sy'n hysbys i'w gilydd (neu sy'n gysylltiedig â'i gilydd) ac y gwyddys eu bod yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant neu'n hwyluso hynny. Mae cymryd rhan mewn camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cynnwys eu cyflwyno i unigolion eraill at ddibenion ecsbloetio, masnachu plant at ddibenion camfanteisio'n rhywiol, cymryd taliad am weithgareddau rhywiol gyda phlentyn neu ganiatáu i'w heiddo gael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau rhywiol gyda phlentyn."*

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant gan Rwydweithiau Trefnedig

## 3. Egwyddorion cyffredinol

Bydd pob ymchwiliad i gam-drin wedi'i drefnu neu gam-drin lluosog yn wahanol, yn unol â nodweddion pob sefyllfa a graddfa a chymhlethdod yr ymchwiliad. Ond ar gyfer pob ymchwiliad o'r fath bydd gofyn am gynllunio trylwyr, gweithio rhyng-asiantaeth da a sylw i anghenion lles y dioddefwr sy'n blentyn neu'r oedolyn sy'n oroeswr.

Mae ymchwilio i achosion cymhleth o gam-drin yn cymryd llawer o amser ac yn gofyn am sgiliau arbenigol gan yr heddlu a staff gwaith cymdeithasol.

Mae rhai ymchwiliadau'n dod yn hynod gymhleth oherwydd nifer y lleoedd a'r bobl dan sylw, a'r cyfnod amser mae'r cam-drin honedig wedi digwydd. O dan yr amgylchiadau hyn, gellir sefydlu Grŵp Ymchwilio ar y Cyd arbenigol (gweler Adran 7), yn ogystal â Grŵp Rheoli Strategol (gweler Adran 6).

**Gall y cymhlethdod gael ei ddwysáu er enghraifft mewn achosion nad ydynt yn rhai diweddar, nad yw'r dioddefwyr honedig bellach yn byw yn y lleoliad lle digwyddodd y digwyddiadau, neu lle nad yw'r troseddwyr honedig bellach yn gysylltiedig â'r lleoliad neu'r swydd dan sylw.** Mae'r cynnydd mewn achosion o blant sy'n cael eu cam-drin wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd yn gymhlethdod ychwanegol oherwydd y newidiadau mewn technoleg. Dim ond yn ystod ymchwiliadau y gall maint a chymhlethdod llawn y cam-drin ddod i'r amlwg. Mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o hyn o ddechrau'r ymchwiliadau. Dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i asiantaethau sydd angen bod yn rhan o'r ymchwiliad gan gynnwys materion trawsffiniol.

Mae achosion o gam-drin nad ydynt yn rhai diweddar yn aml yn dod i'r amlwg pan fydd oedolion yn datgelu camdriniaeth a ddioddefwyd pan yn blant. Dylid ymateb i achosion o'r fath yn yr un modd ag unrhyw bryderon eraill. Mae'n bwysig canfod a yw'r troseddwr honedig yn dal i weithio gyda phlant neu'n gofalu amdanynt.

Pan fo honiad yn ymwneud â deiliad swydd sydd â rôl benodol o fewn y gweithdrefnau hyn, rhaid rhoi gwybod am yr atgyfeiriad i reolwr arall (uwch) yn unol ag Adran 5, (honiadau yn erbyn ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi o ymddiriedaeth) Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
Efallai y bydd cymhlethdodau hefyd o safbwynt yr angen am fewnbwn therapiwtig, a'r ffaith y byddai unrhyw achos cyfreithiol dilynol yn cymryd llawer o amser. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am therapi cyn treial yma: Egwyddorion Sylfaenol Therapi Cyn Treial i blant - Mehefin 2023

Ym mhob ymchwiliad i gam-drin wedi'i drefnu, mae'n hanfodol bod y staff dan sylw yn cynnal lefel uchel o gyfrinachedd mewn perthynas â'r wybodaeth sydd yn eu meddiant, heb beryglu'r ymchwiliad na lles y plant dan sylw.

Dim ond gydag ymarferwyr sy'n berthnasol i'r ymchwiliad y dylid rhannu gwybodaeth ddilynol a gynhyrchir drwy gydol yr ymchwiliad.

Mae amddiffyn unrhyw blant y nodir eu bod mewn perygl o niwed yn parhau i fod yn hollbwysig. Dylai'r ymchwiliad roi ystyriaeth ddyledus i'r ddyletswydd gofal a lles anghenion cymorth y troseddwr honedig a'r mesurau sydd eu hangen i ddiogelu unrhyw blant y nodwyd eu bod yn droseddwyr posibl. Rhaid rhoi'r gweithdrefnau hyn ar waith ar y cyd ag Adran 5

(honiadau yn erbyn ymarferwyr a'r rhai sydd mewn swyddi o ymddiriedaeth) o Weithdrefnau Diogelu Cymru 2019.

Cynhelir ymchwiliad i gam-drin wedi'i drefnu dan adain Bwrdd Diogelu Gwent (GSB) a dylid rhoi gwybod iddo am y cynnydd. Dylai'r SMG fod yn gyfrifol am gysylltu'n rheolaidd â'r GSB. Fodd bynnag, ni ddylai'r GSB gymryd unrhyw rôl uniongyrchol wrth reoli'r ymchwiliad. Yr asiantaeth arweiniol fydd yr Heddlu tra bydd unrhyw ymchwiliad troseddol yn cael ei gynnal, dan arweiniad asiantaethau partner ynghylch materion diogelu a chymorth ehangach.

Am ragor o wybodaeth, ewch i https://www.app.college.police.uk/app-content/major-investigation-and-public-protection/operation-hydrant/

**Mae lles y plentyn yn hollbwysig. Mae cam-drin yn hynod drawmatig i'r plant dan sylw ac mae'n rhaid cymryd gofal mewn ymchwiliadau ar raddfa fawr i sicrhau nad yw'r staff yn canolbwyntio ar agweddau cyfreithiol a throseddol yr ymchwiliad ar draul materion lles plant. Mae safon y dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer achos troseddol yn wahanol i'r hyn sy'n ofynnol at ddibenion amddiffyn plant. Dylid cofio mai'r ystyriaeth bwysicaf yw diogelwch a lles y plentyn.**

**Rhaid i'r ymchwiliad a'r ymholiadau hefyd fynd i'r afael ag anghenion hiliol, crefyddol, diwylliannol, iaith, cyfeiriadedd rhywiol a rhywedd y plentyn, ynghyd ag unrhyw anghenion arbennig y plentyn sy'n deillio o salwch neu anabledd.**

## 4. Atgyfeiriadau – Gweithio gydag Achosion Cymhleth o Gam-drin

**Os oes pryderon uniongyrchol ynglŷn â diogelwch neu les unrhyw blentyn, dylid cysylltu â'r gwasanaethau brys drwy ffonio 999 i gysylltu â'r Heddlu.**

Pan fo amheuaeth o achos cymhleth o gam-drin, dylai'r ymarferwyr gyflawni'r Ddyletswydd i Adrodd i Wasanaethau Plant ar unwaith. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 yn nodi, os oes gan ymarferydd reswm rhesymol i amau bod plentyn mewn perygl, rhaid rhoi gwybod i Wasanaethau Plant cyn gynted â phosibl dros y ffôn. Rhaid i unrhyw atgyfeiriadau a wneir dros y ffôn gael eu dilyn gyda ffurflen Dyletswydd i Adrodd o fewn 24 awr.

Pan dderbynnir adroddiad Dyletswydd i Adrodd lle nodir achos cymhleth o gam-drin, dylid hysbysu uwch reolwyr ar unwaith pwy fydd yn cysylltu â'r Heddlu er mwyn trafod y camau nesaf ar gyfer ymchwiliad ar y cyd.

Pan fo ymarferydd neu berson mewn swydd o ymddiriedaeth yr amheuir ei fod yn rhan o'r gamdriniaeth, dylid cyfeirio'r mater at uwch reolwr a'r Person Diogelu Dynodedig (DSP) yn unol â Gweithdrefn GSB. Adran 5, (honiadau yn erbyn ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi o ymddiriedaeth) Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019

Cynhelir ymchwiliadau i achosion cymhleth o gam-drin dan nawdd GSB a dylid rhoi gwybod iddynt am gynnydd.

Mae’r protocol hwn yn disgrifio’r broses o ddigwyddiadau wrth ymateb i bryderon ynghylch achosion cymhleth o gam-drin posibl.

## 5. Cyfarfod Strategaeth Cychwynnol

Rhaid i'r Drafodaeth/Cyfarfod Strategaeth, dan gadeiryddiaeth uwch reolwr Gofal Cymdeithasol Plant, ddigwydd o fewn 24 awr i dderbyn yr atgyfeiriad a rhaid ei gofnodi'n ffurfiol.

Rhaid i'r Drafodaeth/Cyfarfod Strategaeth:

- Asesu'r wybodaeth sy'n hysbys hyd yn hyn.
- Penderfynu pa wybodaeth arall sydd ei hangen ar y cam hwn a threfnu i’w chasglu.
- Sefydlu a oes achos cymhleth o gam-drin wedi'i ddatgelu, ac i ba raddau.
- Cynnal ymarfer mapio cychwynnol i bennu graddfa'r ymchwiliad a'r unigolion posibl sydd dan sylw.
- Ystyried cynllun ar gyfer yr ymchwiliad i'w gyflwyno i'r SMG, gan gynnwys goblygiadau adnoddau.
- Ystyried unrhyw gamau diogelu sydd eu hangen ar unwaith ac ystyried anghenion unrhyw blant/pobl ifanc dan sylw.
- Pwysleisio pwysigrwydd cyfrinachedd ac mai dim ond drwy'r sianeli cyfathrebu cytunedig y dylid rhannu gwybodaeth.

Gall y Drafodaeth/Cyfarfod Strategaeth hon gynnwys yr atgyfeiriwr, os yw'n briodol, ymgynghorydd cyfreithiol ac unrhyw un arall sy'n berthnasol i'r drafodaeth. Dylai hyn fod yn unrhyw ymarferydd, neu unrhyw un sydd â chyfrifoldeb diogelu.

Ar ôl ystyried a thrafod yr wybodaeth, rhaid i’r rhai sy’n ymwneud â’r drafodaeth, os yw’r amheuaeth yn cael ei chadarnhau yn eu barn nhw, rannu’r wybodaeth gyda Phennaeth Gofal Cymdeithasol Plant a’r Ditectif Brif Arolygydd, Uned Diogelu’r Cyhoedd (PPU) Gwent.

Os bydd y cyfarfod yn penderfynu bod yr achos yn ddigon cymhleth a dwys o ran adnoddau, yna dylid galw cyfarfod o'r Grŵp Rheoli Strategol.

Os nad yw’r achos yn cyrraedd y trothwy i’w ystyried o dan y protocol hwn, yna bydd yr ymchwiliad yn cael ei reoli o dan y trefniadau diogelu arferol. Pe bai gwybodaeth arall sy'n awgrymu achos cymhleth o gam-drin yn dod i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad, yna mae angen ailystyried y protocol hwn.

Os yw maint y cymhlethdod yn aneglur, dylid trefnu cyfarfod arall i adolygu cynnydd yr achos.

Dylid rhoi ystyriaeth barhaus i ddiddordeb y wasg / cyfryngau, a rhaid hysbysu Tîm Cyfathrebu pob asiantaeth er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei reoli'n effeithiol.

## 6. Grŵp Rheoli Strategol (SMG)

Mae goblygiadau adnoddau sylweddol wrth reoli achosion cymhleth o gam-drin ac mae angen mynd i'r afael â'r rhain ar lefel uwch o'r cychwyn cyntaf. Er mwyn sicrhau ymateb cydgysylltiedig, rhaid cynnull cyfarfod Grŵp Rheoli Strategol, dan gadeiryddiaeth nailI ai Gofal Cymdeithasol Plant neu'r Heddlu, cyn gynted â phosibl. Bydd yr asiantaeth sy'n cychwyn y cyfarfod yn darparu'r cymorth gweinyddol, a bydd y Cadeirydd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd i'r Partneriaid Diogelu.

Dylai aelodaeth y grŵp gynnwys uwch staff sy'n gallu ymrwymo adnoddau a byddant fel arfer yn cynnwys y canlynol:

- Pennaeth Gwasanaeth Diogelu Gofal Cymdeithasol Plant
- Uwch Swyddog Comisiynu
- Prif Swyddog Cynorthwyol yr Heddlu neu Bennaeth Diogelu'r Cyhoedd
- Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu (SIO)
- Uwch reolwr diogelu
- Uwch gynghorydd cyfreithiol yr Awdurdod Lleol a'r Heddlu
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol yr Adran Addysg
- Pennaeth Diogelu ar gyfer Iechyd
- Swyddog y Wasg
- Unigolion ac asiantaethau eraill fel y bo'n briodol

Ni ddylai rheolwyr llinell uniongyrchol unrhyw staff sy'n gysylltiedig â'r honiadau o gam-drin gael eu cynnwys yn yr SMG.

Rhaid i'r cyfarfod SMG ystyried amrywiaeth eang o faterion a chytuno ar gynllun sy'n cynnwys:

- Diffinio pwrpas, maint a therfyn yr ymchwiliad ac adolygu hyn yn barhaus.
- Penderfyniad ar raddfa'r ymchwiliad a'r staff sydd eu hangen ar gyfer Grŵp Ymchwilio ar y Cyd (JIG).
- Ystyried unrhyw faterion trawsffiniol a chynllunio cyswllt priodol a rhannu adnoddau.
- Nodi ymarferwyr i reoli'r broses ymchwilio (ditectifs wedi'u hyfforddi'n briodol gan gynnwys uwch swyddog ymchwilio a Rheolwr Gofal Cymdeithasol Plant/Rheolwr Gweithredol).
- Datblygu strategaeth gyfathrebu sy'n nodi pa wybodaeth y gellir ei rhannu, gyda phwy ac ar ba gam (dylai hyn hefyd gynnwys y trefniadau ar gyfer cyfathrebu brys y tu allan i oriau. Rhaid i gytundeb cyfrinachedd gael ei lofnodi gan yr SMG, y JIG a, lle bo'n briodol, unrhyw bartner dilynol dan sylw).
- Trefnu llety digonol, gan gynnwys ystafell digwyddiadau bwrpasol, lle bo modd, a chyfleusterau ar gyfer cyfweld a recordio cyfweliadau.
- Trefniadau i staff meddygol gynnal asesiadau.
- Trefniadau ar gyfer staff gweinyddol digonol ac adnoddau technoleg gwybodaeth i gynorthwyo'r ymchwiliad.
- Cyngor cyfreithiol gan gynnwys ymgynghori â Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS).
- Digon o adnoddau i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag cam-drin pellach a bod eu lles yn parhau i fod yn hollbwysig (dylai hyn gynnwys lleoliadau maeth, gofal dydd, neu breswyl priodol, gwasanaethau meddygol, Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC), a gwasanaethau therapiwtig, addysgol ac ymarferol).

- Ystyried anghenion therapiwtig plant ac oedolion.
- Digon o gymorth, goruchwyliaeth a dadfriffio i’r staff dan sylw.
- Argaeledd cyngor arbenigol lle bo angen.
- Trefniadau cyswllt ar gyfer gweithio rhyng-asiantaethol.
- Amserlenni ar gyfer camau'r ymchwiliad.
- Dyrannu tasgau penodol i bersonél sy'n rhan o'r ymchwiliad, ynghyd â chyfrifoldebau rheoli llinell.
- Rheoli cysylltiadau cyhoeddus a diddordeb y cyfryngau yn yr achos.
- Cymorth i dystion, os yw'n berthnasol.
- Rheoli effaith gymunedol.
- Polisi datgelu/rhannu gwybodaeth.
- Llinell gymorth/wybodaeth i ddioddefwyr.
- Iawndal ariannol i ddioddefwyr.
- Strategaeth ymadael.
- Diogelu data a chadw data a phenodi swyddog datgelu.

Rhaid dynodi unigolyn i weithredu fel cydlynydd rhwng y SMG a’r JIG, fel arfer Uwch Swyddog Ymchwilio’r Heddlu neu reolwr arweiniol Gofal Cymdeithasol Plant.

Cyfrifoldeb y cydlynydd yw sicrhau llif gwybodaeth berthnasol rhwng y grwpiau gweithredol a strategol.

Rhaid dynodi aelod o'r SMG i ddiweddaru'r Is-grŵp Adolygu Achosion ynghylch datblygiadau a materion arwyddocaol.

Rhaid i'r SMG wneud trefniadau i ymgynnull yn rheolaidd yn ystod yr ymchwiliad i:

- Monitro cynnydd, ansawdd ac uniondeb yr ymchwiliad.
- Adolygu dangosyddion risg ar gyfer y plant dan sylw.
- Adolygu'r strategaeth gyfathrebu.
- Ystyried gofynion o ran adnoddau.
- Ystyried amseriad priodol terfynu'r ymchwiliad.
- Cynllunio cyfarfod dadfriffio gyda'r JIG i nodi'r gwersi a ddysgwyd.

Gellir ffurfio tîm penodol o Swyddogion Heddlu i ddelio ag ymholiad trawsffiniol, neu unrhyw bartneriaeth arall (Gofal Cymdeithasol, Iechyd, ac ati) i gysylltu â heddluoedd eraill, awdurdodau lleol, a chomisiynwyr iechyd ac ati.

Dylai'r SMG ymgynnull nes bod y CPS wedi gwneud penderfyniad ynghylch cyhuddo a bod mesurau diogelu hirdymor priodol yn eu lle ar gyfer dioddefwyr.

Rhaid i’r SMG adrodd yn ysgrifenedig i’r Is-grŵp Adolygu Achosion, fel y gall y grŵp ystyried a ddylid cychwyn adolygiad ymarfer.

Dim ond ar ôl cytuno ar ymchwiliad i achos cymhleth o gam-drin y bydd SMG yn cael ei gynnull, ac mewn achosion o'r fath, bydd rhyw fath o ymchwiliad troseddol bob amser. O ystyried hyn, yr Heddlu fydd yn gyfrifol am ddosbarthu a storio cofnodion yr SMG. Ochr yn ochr â chytuno ar gylch gorchwyl yr SMG, dylid cynnal trafodaeth i egluro'r trefniadau hyn i'r rhai dan sylw.

Dylid trefnu'r cofnodion yn y fformat a ganlyn:

- Amser, dyddiad, lleoliad y cyfarfod
- Cylch gorchwyl
- Pobl sy’n bresennol
- Ymddiheuriadau
- Manylion yr holl unigolion sy'n destun yr ymholiad (genogram)
- Ffeithiau ac amgylchiadau sy'n hysbys hyd yma
- Camau gweithredu a nodwyd
- Paramedrau ymchwilio
- Materion adnoddau a rheoli
- Materion yn ymwneud â’r cyfryngau
- Amrywiol
- Strategaeth ymadael
- Dyddiad y cyfarfod nesaf
- Dylid cofnodi penderfyniadau a rhesymu esboniadol yn y llyfr polisi, sef dogfen a ddefnyddir gan yr Uwch Swyddog Ymchwilio i gofnodi penderfyniadau strategol a thactegol, a fydd yn goruchwylio'r ymchwiliad yn unol â pholisïau a phrotocolau'r Heddlu ar gyfer ymchwilio i droseddau difrifol a chymhleth.

Rhaid i'r SMG roi gwybod i Fwrdd Diogelu Gwent am ganlyniad yr ymchwiliad a'r ystyriaeth a roddir i'r angen am adolygiad ymarfer plant.

## 7. Grŵp Ymchwilio ar y Cyd (JIG)

Rôl y grŵp hwn yw cynnal ymchwiliad trylwyr a thryloyw a sicrhau y glynir at weithdrefnau diogelu. Dylai hyn gynnwys:

- Fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth ac i fonitro cynnydd y broses ymchwilio.
- Cynllunio'r ymchwiliad cyffredinol, gan gynnwys gwirio cofnodion, casglu tystiolaeth (gan gynnwys tystiolaeth fforensig, cyfweliadau â chamdrinwyr honedig a thystion, a thystiolaeth berthnasol arall), cynllunio, ac ymgymryd â chyfres o gyfweliadau rhyng-gysylltiedig, pennu strategaeth cyfweld â dioddefwyr, ac unrhyw wyliadwriaeth angenrheidiol.
- Diweddariadau ymchwiliol i’r SMG (gan gynnwys argymell pryd i gau'r ymchwiliad).
- Diweddariadau adnoddau i’r SMG.
- Ystyried goblygiadau croesi ffiniau daearyddol.
- Darpariaethau cymorth cyson i ddioddefwyr a'u teuluoedd.
- Darpariaethau cymorth ar gyfer staff y tîm ymchwilio.
- Rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau nad ydynt wedi'u cynrychioli ar yr SMG. Ni ddylai fod unrhyw wyriad oddi wrth strategaeth gyfathrebu bresennol yr SMG heb gymeradwyaeth ymlaen llaw yr SMG.
- Cydymffurfio â’r protocol rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd: mae hyn yn cynnwys cynnal cofnodion ysgrifenedig o gyfarfodydd strategaeth a gweithredol rheolaidd.
- Cychwyn y protocol hwn a gweithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau a bennwyd gan yr SMG.
- Cynnull cyfarfodydd rhyng-asiantaeth a/neu gynadleddau amddiffyn plant fel y bo'n briodol.
- Cydlynu ac amseru gwasanaethau therapiwtig.

- Ystyried trefniadau ar gyfer gwrandawiadau llys a chymorth i blant a theuluoedd.
- Argymhellion ynghylch lleoli plant ac unrhyw gyswllt sy'n ymwneud â phlant a'u brodyr a'u chwiorydd, perthnasau neu oedolion eraill.

Dylai'r grŵp hwn a arweinir gan Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu, neu eu dirprwy gynnwys cynrychiolwyr o Ofal Cymdeithasol Plant, Addysg ac Iechyd. Nid yw'r rhestr hon yn rhestr gyflawn. Gellir hefyd dynnu aelodaeth, yn ôl yr angen, o blith y CPS, Gwasanaethau Cyfreithiol, y Gwasanaeth Prawf, a gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr.

Bydd y mynychwyr yn dibynnu ar raddfa'r ymchwiliad, ond yn y mwyafrif o achosion dylai PPU a Gofal Cymdeithasol Plant ddarparu rheolwr llinell a staff â phrofiad digonol wrth gyfweld â phlant ac wedi'u hyfforddi mewn *Sicrhau'r Dystiolaeth Orau mewn Achosion Troseddol.*

Wrth ddewis staff, dylid ystyried gofynion sy'n deillio o anghenion unigol y plentyn/plant perthnasol, h.y. rhywedd, diwylliant, hil, iaith, a lle bo'n berthnasol, anabledd/anghenion arbennig.

Rhaid adrodd am unrhyw dorri cyfrinachedd (bwriadol neu anfwriadol) ar unwaith i'r SMG fel y gallant fynd i'r afael â'r mater hwn a rheoli'r effaith wirioneddol neu bosibl ar yr ymchwiliad.

Rhaid i aelodau'r tîm fod yn annibynnol ar unrhyw un o'r partïon sy'n destun yr ymchwiliad.

Dylai personél sydd wedi'u secondio i'r Tîm Gweithredol fod wedi'u neilltuo i'r ymchwiliad ac ni ddylai fod ganddynt unrhyw gyfrifoldeb arall.

**Trefniadau Ymarferol**

Rhaid i leoliad y grŵp ystyried, yn ddaearyddol ac yn sefydliadol, yr angen i gadw cyfrinachedd. Mae hyn yn arbennig o hanfodol pan fydd yr ymchwiliad yn ymwneud â staff neu ofalwyr.

Rhaid i gyfleusterau priodol fod ar gael ar gyfer cyfweliadau fideo yn unol â *Sicrhau'r Dystiolaeth Orau mewn Achosion Troseddol* ac asesiad pediatrig. *Sicrhau'r dystiolaeth orau mewn achosion troseddol.*

Rhaid mynd i'r afael â chymorth gweinyddol, technoleg gwybodaeth a gofynion llety ar y dechrau, gan gynnwys storio cofnodion cyfrinachol.

Fel arfer, dylai rhieni neu ofalwyr gael gwybod o'r cychwyn cyntaf bod amheuaeth yn bodoli a bod ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r mater. Fodd bynnag, gall fod rhai achosion lle penderfynir na ddylid hysbysu rhieni e.e. pan fo rhesymau cadarn dros gredu y bydd y plentyn yn cael niwed os rhoddir unrhyw wybodaeth am yr ymchwiliad neu mewn achos o amheuaeth o gam-drin lluosog, gall buddiannau plant eraill gael eu peryglu. Pan fyddwch yn bwriadu peidio â rhoi gwybod i rieni, rhaid ceisio cyngor cyfreithiol.

## 8. Rhannu gwybodaeth

Yn hanfodol, mae'r ymchwiliadau hyn yn dibynnu ar sicrhau bod gwybodaeth sensitif neu hynod gyfrinachol ar gael, gan gynnwys unrhyw wybodaeth sy'n hysbys am gyflawnwyr honedig a nodwyd yn yr ymchwiliad. Dylid cymhwyso egwyddorion rhannu gwybodaeth i bob ymchwiliad i achos cymhleth o gam-drin a dylai aelodau'r tîm fod yn gyfarwydd â'i ddarpariaethau.

Mae'r angen i gynnal uniondeb gwybodaeth a rennir yn hanfodol, a rhaid i'r holl staff ymchwilio fod yn ymwybodol o egwyddor a chymesuredd GDPR a chydymffurfio â hyn. Dylid ystyried defnyddio cytundebau cyfrinachedd o ran unigolion a gyflogir i gynnal yr ymchwiliad.

Yn ogystal â'r materion sy'n ymwneud â mynediad at ffeiliau a rhannu gwybodaeth, rhaid ystyried yr angen i rannu gwybodaeth am unrhyw droseddwr hysbys neu a amheuir a nodwyd yn yr ymchwiliad.

Pryd bynnag y daw cwyn i law mewn perthynas â thramgwyddwr honedig, rhaid cynnal asesiad risg ar unwaith i weld pa risg gyfredol y gallai'r person hwnnw ei pheri i blant eraill.

Pan fydd aelodau o'r tîm ymchwilio yn derbyn gwybodaeth o'r fath, dylid cyflwyno'r ffurflen dyletswydd i adrodd briodol ar gyfer mesurau diogelu amlasiantaeth, dylai hyn fod ar gyfer yr ardal mae'r dioddefwr/dioddefwyr, dioddefwyr a throseddwyr posibl a throseddwyr yn byw ynddi.

Pan fydd gwybodaeth hanfodol wedi cael ei cholli, ei difrodi neu ei dinistrio, ystyriwch ddulliau amgen i gael gwybodaeth gan dystion a dioddefwyr hysbys neu ddarpar dystion neu ddioddefwyr. Cofnodwch y canfyddiadau ar gronfa ddata.

Mae canllawiau manwl pellach yn y rhifyn hwn, ynghyd â chyngor ar ddatgelu deunydd: https://www.app.college.police.uk/app-content/major-investigation-and-public-protection/child-abuse/complex-investigations am ragor o gyngor ac arweiniad gweler:https://www.app.college.police.uk/app-content/major-investigation-and-public-protection/child-sexual-exploitation/

## 9. Croesi ffiniau daearyddol a gweithredol

Gellir cydnabod ar y cychwyn neu yn ystod yr ymchwiliad fod yna ddioddefwyr a throseddwyr a amheuir neu a allai fod, mewn mwy nag un ardal ddaearyddol.

O'r cychwyn, yr Heddlu sy'n gyfrifol am reoli'r ymchwiliad yn yr ardal lle honnir bod y cam-drin wedi digwydd – lle honnir bod y cyflawnwr/cyflawnwyr honedig yn gweithredu – a bydd yn gwneud y cyswllt angenrheidiol ag ardaloedd eraill yr effeithir arnynt drwy'r SMG (oni bai

bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol, e.e. troseddau ar-lein neu herwgipio).

Unwaith y cydnabyddir bod yna ddioddefwyr tybiedig neu ddarpar ddioddefwyr y tu allan i Gwent, bydd y JIG yn penderfynu pa asiantaethau sy'n cael eu hysbysu a sut y cesglir tystiolaeth.

Dylai'r JIG cychwynnol a'r Tîm Gweithredol gynnal yr ymchwiliad ar ran yr ardaloedd daearyddol eraill.

Os bydd nifer y dioddefwyr y tu allan i ffiniau daearyddol y JIG gwreiddiol yn cynyddu i'r graddau na all ymateb, dylid cynnal trafodaethau ar gyfer JIG gyda'r Heddlu a Gofal Cymdeithasol yn yr ardal ddaearyddol newydd.

Mae'n hanfodol bod SMG ar y cyd i ddarparu cynllunio cyffredinol. Os oes angen cael mwy nag un JIG, rhaid cael cydweithio agos rhwng cydlynwyr a phrosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn llawn.

Yr Awdurdod Lleol sydd â'r cyfrifoldeb dros yr achos cymhleth o gam-drin fyddai'r Awdurdod Lleol lle mae'r cam-drin yn digwydd.

Dylai uwch reolwr o bob maes ychwanegol ymuno â'r SMG i drafod a chytuno ar unrhyw oblygiadau o ran adnoddau.

## 10. Diwedd yr Ymchwiliad

Rhaid cael strategaeth ymadael wedi'i diffinio'n glir nid yn unig mewn perthynas â chau ymchwiliad, ond hefyd mewn perthynas â dioddefwyr a thystion, y gallai fod angen cymorth parhaus arnynt ar ddiwedd unrhyw dreial neu ymchwiliad.

Mae angen i ymarferwyr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ymchwiliad yn ogystal â staff gweithredol eraill sydd wedi cadw gwasanaethau o ddydd i ddydd i redeg lle mae cydweithwyr wedi'u secondio i'r tîm ymchwilio, gael eu dadfriffio'n drylwyr.

Dylai'r SMG gael cyfarfod terfynol lle gellir rhannu gwybodaeth derfynol a dadfriffio. Dylid llunio adroddiad trosolwg a'i gyflwyno i Fwrdd Diogelu Gwent.

Rhaid manylu ar storio, diogelu a chadw'r ffeiliau sy'n ymwneud â'r ymchwiliad. Mae'n bosibl iawn y bydd angen mynediad at gofnodion o'r fath mewn perthynas ag unrhyw apeliadau parhaus, achosion sifil, neu geisiadau am iawndal. Rhaid i hyn gydymffurfio â phrosesau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu a GDPR.

Ar ddiwedd ymholiad/ymchwiliad, dylai'r SMG ystyried a ddylid cynnal gwerthusiad o'r ymchwiliad fel y gellir nodi'r gwersi a ddysgwyd. Bydd adolygiad o'r fath yn ategu unrhyw adolygiad ymarfer a allai redeg yn gydamserol neu fod wedi'i gwblhau.

**Atodiad 1**

## SIART LIF Y BROSES AR GYFER YMCHWILIADAU ACHOSION CYMHLETH



**Atodiad 2**

**TEMPLED ADRODDIAD CYNNYDD** *(I'w gwblhau gan y Grŵp Ymchwilio ar y Cyd i hysbysu'r Grŵp Uwch Reoli)*

**Crynodeb o'r dystiolaeth** - dylai hyn gynnwys matrics perthynas o bwy sydd wedi gwneud beth i bwy a beth yw'r berthynas. Gall enghreifftiau gynnwys genogramau, siartiau I2, eco fap, systemau a chysylltiadau teuluol

**Crynodeb o'r Cadarnhad**

**Dioddefwyr/troseddwyr ychwanegol a nodwyd**

**Camau a gymerwyd hyd yma a dyddiad cwblhau**

**Nodi’r camau nesaf a'r camau gweithredu i'w cymryd**

**Atodiad 3**

## TEMPLED ADNABOD PLANT SY'N PERI PRYDER YN YR YMCHWILIAD

| RHIF ADNABOD | ENW'R PLENTYN A DYDDIAD GENI | STATWS CYFREITHIOL Y PLENTYN | ENW RHIENI/GOFALWYR A DYDDIAD GENI. | CYFEIRIAD CARTREF | CYSYLLTIADAU HYSBYS I'R TROSEDDWYR HONEDIG | CAMAU A GYMERWYD I.A./S.47 | NATUR Y DATGELIAD | ACHOS AR AGOR/AR GAU AC I BA DÎM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |